The Firestarter yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Ar 11eg Tachwedd perfformir *The Firestarter*, cynhyrchiad gan y cwmni theatr adnabyddus *Big State Theatre,* yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Dyma bumed gynhyrchiad y cwmni sydd ar ei ail daith, ac mae'n twrio'n rhygwladol yn ystod yr Hydref 2008.

Dyfeisiwyd *The Fire Starter* mewn pedair wythnos yn unig gan y cast a'r cyfarwyddwr John Nicholson, gyda chymorth Andy Burden. Seilir y cynhyrchiad ar fywyd anhygoel y Dr William Price (1800-1893), cymeriad ecsentrig oedd yn adnabyddus am ei syniadau radicalaidd ar bynciau megis gwrthod cig, noethni a chariad rhydd. Bu'n arloesi'r ymarfer o amlosgiad, syniad sgandalaidd o fewn y gymdeithas Fictoraidd - 'roedd amlosgi yn anghyfreithlon ar y pryd. Mae cwmni *Big State Theatre* yn defnyddio'i ddychymyg comig a'i steil amrywioi i ddod â'r cymeriad anhygoel a chwbl unigryw hwn yn ôl i fywyd. Mae *The Firestarter* yn nodweddu dros 25 o gymeriadau gan gynnwys dafad, parot, ficer gwbl ddi-glem, efeilliaid gwyllt a'r *Smelly Gwennie* sy'n edrych am serch - y cyfan yn cael eu perfformio gan dri actor amryddawn drosben.

Ffurfiwyd *Big State Theatre* ym 1996 gan griw o berfformwyr proffesiynol ac ym mis Medi 2001, sefydlwyd y cwmni fel Cwmni Theatr Preswyl yn yr *Arc Theatre*, Trowbridge. Yn ogystal â dyfeisio a pherfformio theatr gomic boblogaidd, mae'r Cwmni'n awyddus i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau dychmygu a chyfathrebu - ym 1998 bu'r cwmni yn sefydlu Theatr Ieuenctid Corsham yng Nghanolfan Gelfyddydau *The Pound* ac yn ystod yr Hydref 2001 buont yn cymryd drosodd Theatr Ieuenctid HŶn yr *Arc*. Mae actorion y cwmni yn gweithio'n rheolaidd gyda *Hull Truck*, *The Natural Theatre* a Chwmni Theatr *Innerroom*.

Creuwyd *The Firestarter* gyda chefnogaeth Celfyddydau'r De-ddwyrain, Cyngor Dosbarth Gorllewin Wiltshire a *Heaven Scent Incense*.

Perfformir cynhyrchiad Big State Theatre o *The Firestarter* ar nos Fawrth 11eg Tachwedd am 7.30 pm yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Bydd y perfformiad yn parhau am 70 munud heb egwyl. Pris y tocynnau yw £8 (£7), CC £7.50 (£6.50) a Grwpiau £6 ac maent ar gael o Swyddfa Docynnau'r Ganolfan ar 01970 623232 neu ar-lein www.aber.ac.uk/artscentre.